

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ionawr 2019

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Newidiadau i argaeledd bwydydd heb glwten (GF) er mwyn trin clefyd seliag ar bresgripsiwn yn Lloegr – goblygiadau i Gymru

Dyddiad dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad Mae'r Cylchlythyr hwn yn parhau mewn grym hyd nes y caiff ei ddisodli gan Gylchlythyr arall.

I'w weithredu gan:
Prif Fferyllwyr; Fferyllwyr Cymunedol; Meddygon
Teulu; a Meddygfeydd Fferyllol

Angen gweithredu erbyn:
24 Ionawr 2019

Anfonwr: Y Gangen Fferylliaeth a Phresgripsiynu, Grwp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Enw(au) cyswllt yng Ngrŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:
Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol, Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

Dogfen(nau) amgaeëdig: Llythyr y Prif Swyddog Fferyllol

WHC/2019/001

Annwyl Gydweithiwr

**NEWIDIADAU I ARGAELEDD BWYDYDD HEB
GLWTEN (GF) ER MWYN TRIN CLEFYD SELIAG
AR BRESGRIPSIWN YN LLOEGR –
GOBLYGIADAU I GYMRU**

Diben

1. Yn sgil y newidiadau i argaeledd bwydydd heb glwten er mwyn trin clefyd seliag ar bresgripsiwn yn Lloegr a ddaeth i rym ar 4 Rhagfyr, dyma'ch hysbysu y bydd y polisi cyfredol o bresgripsiynu bwydydd heb glwten yn parhau'r un fath yma yng Nghymru tan y cynghorir fel arall. Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn ystyried yr opsiynau ar sicrhau cyngor arbenigol ar bresgripsiynu a chyflenwi cynhyrchion heb glwten ar gyfer y tymor hirach. Bydd rhestr y bwydydd heb glwten yn y Tariff Cyffuriau ar ddiwedd Tachwedd 2018 yn cael ei chadw, ac ni fydd unrhyw gynhyrchion newydd yn cael eu hychwanegu ati hyd nes bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau. Byddwn yn cyflwyno Cylchlythyr pellach bryd hynny.

Cefndir

2. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2017, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wedi diwygio'r *National Health (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs etc.) Regulations 2004* er mwyn cyfyngu presgripsiynu i fara heb glwten a chymysgeddau heb glwten yn unig. Dim ond i Loegr mae hyn yn berthnasol.

3. Er mai dim ond Lloegr sydd wedi'i heffeithio gan y newidiadau i'r rheoliadau, mae'r Tariff Cyffuriau, sy'n dweud beth ellir ac na ellir ei gyflenwi ar bresgripsiwn y GIG, yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Goblygiadau'r newidiadau yw bod y Tariff Cyffuriau (Rhan XV) wedi'i diweddarau i ddangos rhestr lai o fara a chymysgeddau heb glwten ar gyfer Lloegr, a bod adran ychwanegol (Rhan XVIII A) yn cynghori pa eitemau eraill y gellir eu presgripsiynu yng Nghymru.

4. ACBS sy'n gyfrifol am gynghori'r GIG ar bresgripsiynu'r bwydydd a'r pethau ymolchi sydd wedi'u creu'n arbennig ar gyfer pobl â chyflyrau

Oddi wrth y Prif Swyddog Fferyllol

Welsh
Government
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Llywodraeth
Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

WHC/2019/001

Anfon yn electronig at:

Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd Lleol (BILI)
Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Prif Fferyllwyr, BILI
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, BILI
Cyfarwyddwyr Meddygol, BILI
Cyfarwyddwyr Nyrsio, BILI
Arolygiaeth/Cynghorwyr Gwasanaeth
Carchardai Cymru
Cyfarwyddwr, Y Gymdeithas Fferyllol
Frenhinol
Prif Weithredwr, Fferylliaeth Gymunedol
Cymru

I'w anfon ymlaen at:

Holl Brif Fferyllwyr Ysbytai
Holl Fferyllwyr Cymunedol cofrestredig Cymru
Meddygfeydd fferyllol
Meddygon teulu

Rhagor o wybodaeth:

Andrew Evans
Prif Swyddog Meddygol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
03000 259 260

© Hawlfraint y Goron 2019
Mae croeso i bawb y cyfeirir y cylchlythyr
hwn atynt wneud copïau ohono.

meddygol. Mae hyn yn cynnwys penderfynu pa gynhyrchion heb glwten ddylai gael eu cynnwys yn y Tariff Cyffuriau.

5. O gofio'r newidiadau i'r polisi o bresgripsiynu bwydydd heb glwten yn Lloegr, bydd rôl ACBS yn newid, sy'n golygu na fydd yn gallu ystyried yr amrywiaeth ehangach o fwydydd heb glwten sydd ar gael ar bresgripsiwn ar gyfer Cymru a'r gwledydd datganoledig eraill mwyach. Ni fydd ACBS yn ystyried unrhyw gynhyrchion newydd eraill nad ydynt yn fara neu'n gynhyrchion bwyd heb glwten chwaith.

6. Oherwydd y ffaith fod nifer y bwydydd heb glwten newydd, a'r diwygiadau i hynny, yn isel, mae rhestr ddiweddarar'r Tariff Cyffuriau ar ddiwedd mis Tachwedd 2018 wedi'i 'rhewi'.

Cam gweithredu

7. Nodi'r uchod, a bod y sefyllfa o ran presgripsiynu yng Nghymru yn parhau heb newid, a bod modd parhau i bresgripsiynu'r cynhyrchion a restrir yn y Tariff Cyffuriau ym mis Tachwedd 2018.

8. Os bydd meddalwedd TG yn nodi bod cynnyrch heb glwten ar restr yr eitemau na ellir eu presgripsiynu dim ond oherwydd ei fod wedi'i wahardd yn Lloegr, dylai rhai sy'n presgripsiynu, contractwyr fferyllfeydd cymunedol a meddygfeydd fferyllol wirio bod y cynnyrch wedi'i restru yn adran berthnasol y Tariff Cyffuriau, ac felly'n cael ei caniatáu gan GIG Cymru. Os dyma'r achos, yna gellir diystyru unrhyw gyfyngiad a nodir.



Andrew Evans
Prif Swyddog Fferyllol Cymru